



TAG UWCH – NEWYDD

1000N50-1

CYMRAEG: IAITH GYNTAF – U2 uned 5

**Rhyddiaith yr Oesoedd Canol, yr Hengerdd a'r
Cywyddau**

(Papur Ysgrifenedig)

DYDD IAU, 8 MEHEFIN 2017 – BORE

2 awr a'ch amser estynedig

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur hwn, bydd angen llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc) arnoch chi.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

Atebwch y DDAU gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Dylid defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylech dreulio 1 AWR yr un ar y DDAU gwestiwn.

NI CHANIATEIR DEFNYDDIO COPIÛAU O'R TESTUNAU GOSOD NA GEIRIADURON YN YR ARHOLIAD HWN.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Y mae pob cwestiwn yn gyfwerth o ran marciau.

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn ynghyd â'r marciau a wobrwyr am ansawdd iaith ysgrifenedig.

Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac felly bydd yn profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc e.e. dadansoddi a defnyddio iaith ysgrifenedig.

ADRAN A**1. RHYDDIAITH YR OESOEDD CANOL**

Darllenwch y darn ar dudalennau 5 a 6 yn ofalus ac yna atebwch y DDAU gwestiwn. Gwobrwyir dyfynnu perthnasol yn eich atebion.

Gwobrwyir ansawdd eich iaith ysgrifenedig ar gyfer y ddau gwestiwn isod. [15]

- (a) ESBONIWCH yn fanwl beth sy'n digwydd yn y dyfyniad. Yn eich ateb, cyfeiriwch at ARWYDDOCÂD yr hyn sy'n digwydd yn y darn yng NGHYD-DESTUN y chwedl. [15]**

- (b) Dadansoddwch gymeriad EFNYSIEN yn y chwedl. Defnyddiwch y dyfyniad yn sylfaen i'ch ateb ond disgwylir eich bod yn cyfeirio at RANNAU PERTHNASOL ERAILL o'r chwedl yn ogystal. [15]**

[45]

A'r gyuedach a dechreussant. Dilit y gyuedach a wnaethant ac ymdidan. A phan welsant uot yn well udunt kymryt hun no dilyt kyuedach, y gyscu yd aethant. A'r nos honno y kyscwys Matholwch gan Uranwen. A thrannoeth, kyuodi a orugant pawb o niuer y llys; a'r swydwyr a dechreusant ymaruar am rannat y meiryth a'r gweisson. Ac eu rannu a wnaethant ym pob kyueir hyt y mor. Ac ar hynny dydgueith, nachaf Efnys[s]en [y] gwr anagneuedus a dywedassam uchot, yn dywanu y lety meirch Matholwch, a gouyn a wnaeth, pioed y meirch.

'Meiryth Matholwch brenhin Iwerdon yw y rei hyn,' heb wy.

'Beth a wnant wy yna?' heb ef.

'Yma y mae brenhin Iwerdon, ac yr gyscwys gan Uranwen dy chwaer, a'y ueiryth yw y rei hynn.'

'Ay yuelly y gwnaethant wy am uorwyn kystal a honno, ac yn chwaer y minheu, y rodi heb uyghanyat i? Ny ellynt wy tremic uwy arnaf i,' heb ef.

Ac yn hynny guan y dan y meiryth, a thorri y guefleu wrth y danned udunt, a'r clusteu wrth y penneu, a'r rawn wrth y keuyn; ac ny caei graf ar yr amranneu, eu llad wrth yr ascwrn. A gwneuthur anfuryf ar y meiryth yuelly, hyd nat oed rym a ellit a'r meiryth.

E chwedyl a doeth at Uatholwch. Sef ual y doeth, dywedut anfuraw y ueirych ac eu llygru, hyt nat oed un mwynyant a ellit o honunt.

'Ie, Arglwyd,' heb un, 'dy waradwydau yr a wnaethpwyd, a hynny a uynhir y wneuthur a thi.'

'Dioer, eres genhyf, os uy gwaradwydau a uynhynt, rodi morwyn gystal, kyuard, gyn anwylet gan y chenedyl, ac a rodyssant ym.'

'Arglwyd,' heb un arall, 'ti a wely dangos, [os] ef. Ac nyt oes it a wnelych, namyn kyrchu dy longeu.' Ac ar hynny aroun y longeu a wnaeth ef.

ADRAN B

2. YR HENGERDD A'R CYWYDDAU

Darllenwch y dyfyniadau ar dudalennau 8 a 9 yn ofalus ac yna atebwch y DDAU gwestiwn. Gwobrwyir dyfynnu perthnasol yn eich atebion.

Gwobrwyir ansawdd eich iaith ysgrifenedig ar gyfer y ddau gwestiwn isod. [15]

- (a) Ysgrifennwch am gefndir Y GERDD A'R BARDD. Cyfeiriwch yn benodol at y DYFYNIAD gyferbyn er mwyn gwneud eich ateb yn berthnasol. [15]**

**Greddf gŵr, oed gwas;
Gwryd amddias.
Meirch mwth myngfras
A dan forddwyd mygrwas;
Ysgwyd ysgafn llydan
Ar bedrain mainfuan;
Cleddyfawr glas glân,
Eddi aur aphan.
Ni bi ef a fi
Cas yrhof a thi.
Gwell gwneif â thi,
Ar wawd dy foli!
Cynt ei waed i lawr
Nogyd i neithiawr.
Cynt i fwyd i frain
Nog i argyfrain.
Cu cyfaillt Ywain;
Cŵl ei fod o dan fain.
Marth im pa fro
Lladd un mab Marro.**

- (b) Dadansoddwch grefft ac arddull y bardd yn Y DYFYNIAD isod. [15]

Hawddamor, glwysgor glasgoed,
 Fis Mai haf, canys mau hoed,
 Cadarn farchog, serchog sâl,
 Cadwynwyrdd feistr coed anial,
 Cyfaill cariad ac adar,
 Cof y serchogion a'u câr,
 Cennad nawugain cynnadi,
 Caredig urddedig ddadi.
 Mawr a fudd, myn Mair, ei fod,
 Mai, fis difai, yn dyfod
 Ar fryd arddelw, frwd urddas,
 Yn goresgyn pob glyn glas.
 Gwasgod praff, gwisgad priffyrdd,
 Gwisgai bob lle â'i we wyrdd.
 Pan ddêl yn ôl rhyfel rhew,
 Pill doldir, pall adeildew –
 Digrif fydd, mau grefydd grill,
 Llwybr obry lle bu'r Ebrill –
 Y daw ar uchaf blaen dêr
 Caniadau cywion adar,
 A chog ar fan pob rhandir,
 A chethlydd a hoywddydd hir,
 A niwl gwyn yn ael gwynt
 Yn diffryd canol dyffrynt ...

[45]